

# Llunio ein Dyfodol

## Sut gall Cymru arwain y byd gyda deddf datblygu cynaliadwy

# Llunio ein Dyfodol

## Sut gall Cymru arwain y byd gyda deddf datblygu cynaliadwy

### Mae'r mudiadau sy'n cefnogi'r bil rydym yn ei gynnig yn cynnwys:

**Golygydd:** Haf Elgar **Cyfranwyr:** Ruth Bates, Luned Jones, Bleddyn Lake, Naomi Luhde-Thompson, Mari McNeill, Jessica McQuade, Colin Nosworthy, Richard Nosworthy, Julian Rosser, Hannah Sheppard **Gyda diolch arbennig i** Iwan Bala, Gillian Clarke ac Aneirin Karadog **Delwedd y clawr:** "Byd bach, ein Byd ni" "Small World, our World" Iwan Bala 2005. 70 x 102 cms. Casgliad Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru. Collection National Museum and Gallery, Wales **Delweddau ffotograffig:** Mike Alexander, Glenn Edwards, Haf Elgar, 50930AJ2 - Andrew Jeffery / Photolibrary Wales, 112989KM - Keith Morris / Photolibrary Wales, 116709BS - Billy Stock / Photolibrary Wales, WWF Cymru **Cynlluniwyd gan** Creative Loop **Argraffwyd gan** Pugh's Colourprint • Gorffennaf 2013

Ym mha fath o Gymru a byd hoffech chi fyw a throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf?

Rydym yn gynghrair o fudiadau sy'n rhannu ymrwymiad i lunio dyfodol cynaliadwy i Gymru. Rydym wedi dod at ein gilydd ar adeg dyngedfennol – mae Llywodraeth Cymru yn llunio deddf newydd fydd yn penderfynu sut bydd Cymru'n datblygu dros y degawdau nesaf.

Os ydych yn cefnogi ein cynigion, neu os oes gennych syniadau eich hunan i'w cyfrannu, ymunwch â'r sgwrs – ewch i'r gwefannau a restrir isod neu ymunwch â'r drafodaeth ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnodau #sdbillwales a #bildc

**Am wybodaeth bellach am yr ymgyrch, ewch i:**

www.cymdeithas.org/cymunedau
www.foe.co.uk/datblygu-cynaliadwy-cymru
www.hubcymru.org/hub/campaigningsdbill_cy
www.stopclimatechaoscymru.org/category/datblygu-cynaliadwy
www.wcva.org.uk/what-we-do/policy-and-influence/climate-change?seq.lang=cy
www.wwf.org.uk/cymrugynaliadwy







# A all gwlad fechan wneud gwir wahaniaeth yn y byd?

## Gallwn!

Mae'r penderfyniadau mae ein gwleidyddion a'n hawdurdodau lleol yn eu hwynebu yn anodd ac yn mynd yn anos wrth i'r hinsawdd economaidd waethygu. Ond gall penderfyniadau a wneir heddiw olygu canlyniadau hirdymor i bobl a'r amgylchedd yng Nghymru ac ar draws y byd.

***Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y presennol a'r dyfodol.***

Mae'r hyn rydym yn ei brynu yng Nghymru yn effeithio ar bobl a bywyd gwyllt yma a thramor. Fel y genedl Fasnach Deg gyntaf yn y byd, rydym yn gwybod y gallwn wneud penderfyniadau cadarnhaol. Mae arnom eisiau adeiladu dyfodol gwell, a dyfodol mwy cadarn i genedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni greu swyddi mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd; darparu trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, o safon uchel; gwneud penderfyniadau cynllunio i gefnogi ein cymunedau Cymraeg eu hiaith; sicrhau bod pobl leol yn helpu i ddylunio gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion; addysgu ein plant i fod yn ddinasyddion byd-eang; adeiladu tai sy'n defnyddio llai o ynni ac yn arbed arian, a gwneud bwyd iach, lleol yn fforddiadwy i bawb.

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyd-gysylltiedig; brwydro dros gyfiawnder cymdeithasol ac ansawdd bywyd da i bobl yng Nghymru ac ar draws y byd. A gwneud hyn oll o fewn terfynau amgylcheddol ein planed, gan ddefnyddio'n cyfran deg o'i hadnoddau.

## Felly pam mae arnom angen deddf i wneud hyn?

Ni yw un o'r unig wledydd sydd â Llywodraeth gyda dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym wedi clywed ein Gweinidogion yn siarad am y pwnc ar lwyfan byd-eang. Ac mae llwyddiannau wedi bod – o gefnogi cymunedau yn Affrica i frwydo yn erbyn tlodi tanwydd a chreu swyddi gwyrdd yn y cymoedd.

Eto, er gwaetha'r bwriadau da, rydym ymhell o fod yn wlad gynaliadwy. Mae arnom angen deddfwriaeth gref i wneud yn siwr ein bod yn cyflawni'r hyn a ddywedwn yr hoffwn ei gyflawni.

Rydym am weld deddf sy'n golygu bod gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, megis cynghorau lleol, ysgolion ac ysbytai, ddyletswydd i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal a'r rheini ohonom sy'n fyw heddiw.

Byddai hyn yn rhoi buddion gwirioneddol i bobl a'r blaned. A byddai'r effeithiau i'w gweld y tu hwnt i Gymru. Byddai deddf sy'n torri tir newydd yn ysbrydoli gwledydd eraill ac yn dylanwadu arnynt. Rydym eisoes wedi gweld hynny'n digwydd gyda pholisïau eraill yng Nghymru megis y gwaharddiad ar smygu, trafnidiaeth am ddim ar fws i bobl dros 60 oed ac wrth gwrs y tâl ar fagiau plastig.

Dangoswn yma sut beth yw dyfodol cynaliadwy, ac ym mha ffordd y gallwn sicrhau gwir newid.



# Deilen Amgenach

Wele ddeilen,
deilen o goeden gyfarwydd,
coeden a'i stori'n hir a hen,
y ddeilen sydd fel fy nwylo
a rhychau oes yn llifo'n
nentydd ar ei thraws...

Gwelaf fy nhad
ar lan yr afon
yn goglais brithyll
a sibrwd ei swyn
drwy ei fysedd.
Glas y dorlan
mewn ennyd syfrdan
mor syth ei annel.
Llygod y dŵr
mewn steddfod o stŵr,
Bysedd yr haul yn cyfeilio
dawns direidi gwas y neidr
a'r gwenyn a glöynod byw
yn gaeth i gusan clychau'r gog.

Yn chwa fe chwyth
gwyntoedd cynnydd
y ddeilen o fy nwylo,
mae'r darlun yn rhacs...

Ond mae deilen
amgenach ein dyheadau
a'i hinc yn ddŵr
o nentydd plentyndod,
i greu cof ein dyfodol.

**Aneirin Karadog, Bardd Plant Cymru**

# Beth fyddai'r Bil hwn yn ei olygu i ni

**Jonathon Porritt – Cyn Gadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU**

"Mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy'n cynnig gobaith i bawb yn y Deyrnas Unedig sy'n malio am sicrhau planed iach i genedlaethau'r dyfodol. O'i wneud yn iawn, bydd yn cadarnhau safle Cymru fel arweinydd byd o ran parchu terfynau amgylcheddol – gan helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a diogelu byd natur. Rwy'n llwyr gefnogi'r ymgyrch i Lywodraeth Cymru basio bil cryf sydd wir yn gwireddu ei haddewidion beiddgar."





**Ann Jones – Cadeirydd, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched – Cymru**

"Mae datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd SyM ers ei ddechrau ac mae'n thema drawsbynciol sy'n sylfaen i'n holl waith. Mae gan ferched rôl unigryw wrth arwain y ffordd i gyflawni datblygu cynaliadwy fel gwarcheidwaid adnoddau naturiol, prif benderfynwyr ynghylch defnyddiaeth aelwydydd, addysgwyr y genhedlaeth nesaf a lleisiau allweddol mewn cymunedau. Mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn cynnig cyfle pwysig i Gymru ddod yn arweinydd byd ym maes datblygu cynaliadwy. Mae'n hanfodol i Lywodraeth Cymru wneud hyn yn iawn –trafod gyda chymdeithas sifil a cyflwyno bil cryf a fydd wir yn gwneud gwahaniaeth wrth sicrhau dyfodol cynaliadwy."

**Victoria Winckler – Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan**

"Mae Sefydliad Bevan eisiau gweld Bil Datblygu Cynaliadwy sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb ar lawr gwlad yn ogystal ag mewn egwyddor. Mae hyn yn golygu rhoi arweiniad cryf a chymryd camau cadarnhaol i wneud Cymru'n genedl deg a chyfiawn. Rydym yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â chyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb o fewn terfynau adnoddau ein planed, ac felly yr angen i chwilio am atebion i Gymru sy'n integreiddio pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy."

**Syr Stuart Rose – Arweinydd busnes**

"Mae'r Bil Datblygu Cynaliadwy yn cynnig y gobaith cyffrous y bydd Cymru'n arwain ar greu economi gynaliadwy sy'n garbon isel, yn effeithlon wrth ddefnyddio adnoddau ac yn gyfrifol yn gymdeithasol. Rwy'n cefnogi'r ymgyrch hon am gyfraith gref sy'n helpu i sicrhau economi gynaliadwy. Os yw Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cynnwys y ddeddf hon yn gywir, bydd yn anfon neges rymus a chadarnhaol i fyd busnes fod Cymru o ddifrif ynghylch yr agenda hon."

**Andy O'Callaghan – Cyd-gadeirydd Grŵp Llywio Datblygu Cynaliadwy, Draig Ffynci**

"Mae datblygu cynaliadwy'n allweddol i ddyfodol y byd a hebddo bydd hi ar ben ar y blaned. I mi mae'n golygu ailddefnyddio'r hyn sydd gennym a gwneud yn siŵr y gall cynlluniau a phrosiectau gynnal eu hunain. Dwi eisiau i'r Bil sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n nodwedd greiddiol i benderfyniad unrhyw gorff cyhoeddus a sicrhau y craffir ar bopeth i wneud yn siŵr ei fod wedi cael ei ystyried ac y gweithredwyd yn ei gylch."

**Denise Lord – Valleys Kids / Plant y Cymoedd**

"Craidd elusen 'Plant y Cymoedd' yw datblygiad cynaliadwy cymuned ei hun. Rydym yn creu ac yn sianelu perthnasoedd rhyngwladol trwy'r celfyddydau creadigol, gan wrthdroi'r diffyg uchelgais mae ein pobl ifanc yn ei deimlo. Mae'r angen am gymdeithas gref, iach a chyfiawn wrth galon y drama mae nhw yn eu creu. Mae hyn yn rhoi iddyn nhw gred ynddyn nhw eu hunain a'u dyfodol a dealltwriaeth go iawn o'r ffordd maen nhw'n gysylltiedig â gweddill y byd."





**Iestyn Davies – Pennaeth Materion Allanol i Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru**

"Mae busnesau bach yn rhan hanfodol o wead cymdeithasol ac economaidd cymunedau Cymru ac mae ganddynt ran hollbwysig i'w chwarae ym maes datblygu cynaliadwy. Byddai bil datblygu cynaliadwy cryf i Gymru'n golygu cydbwysedd rhwng tair colofn cynaliadwyedd – y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi – model ar gyfer datblygu ac felly newid a fydd yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer twf i fusnesau bach a chreu swyddi yng Nghymru."

**Y Parch Dr John Weaver – Cadeirydd y John Ray Initiative: cysylltu'r Amgylchedd, Gwyddoniaeth a Christnogaeth a Llywydd Cymdeithas Bedyddwyr De Cymru**

"Rwy'n credu y dylai aelodau cymunedau ffydd groesawu a mynd ati i gefnogi Bil Datblygu Cynaliadwy 2013. Gelwir arnom i fod yn radical : i edrych tuag allan ar anghenion y byd a mabwysiadu agenda radical o stiwardiaeth ddoeth, sy'n cwestiynu defnyddio a disbyddu adnoddau naturiol, ac yn galw arnom i gydnabod ein bod yn atebol am y ffyrdd yr ydym yn rhannu haelioni'r greadigaeth ac yn gofalu am y greadigaeth."

# Bil Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru

## Rhaglith

Gan gydnabod bod datblygu cynaliadwy yn golygu sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a dileu tlodi mewn ffordd y gall holl bobl y ddaear barhau â hi'n ddiddiwedd trwy barchu terfynau amgylcheddol.

Gan gydnabod bod datblygu cynaliadwy yng Nghymru'n cynnwys cynnal a hybu'r Gymraeg a diwylliant ac etifeddiaeth Cymru, gan ddiogelu a gwella amgylchedd naturiol Cymru, a defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r byd.

### 1 Dyletswydd i sicrhau datblygu cynaliadwy

(1) Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy.

### 2 Diffiniad datblygu cynaliadwy

(1) Ystyr datblygu cynaliadwy yw diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, ac mae'n cynnwys cadw at yr egwyddorion canlynol:

(a) sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn;

(b) byw o fewn terfynau amgylcheddol;

(c) defnyddio adnoddau naturiol yn ddarbodus;

(d) sicrhau economi gynaliadwy;

(e) hyrwyddo llywodraethu da;

(f) defnyddio gwyddoniaeth drylwyr yn gyfrifol;

(g) gweithredu'r egwyddor ragofalus ac egwyddor y llygrwr sy'n talu;

(h) osgoi effeithiau rhyngwladol niweidiol;

(i) sicrhau bod pobl Cymru'n defnyddio eu cyfran deg o adnoddau'r byd yn unig;

(j) hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a chryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith;

(k) gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru.

### 3 Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy i Gymru

(1) Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy i Gymru ("Y Comisiynydd").

(2) Bydd gan y Comisiynydd y swyddogaeth o hybu a hwyluso cyflawni datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir yn adran 2 o'r Ddeddf hon.

(3) Caiff unrhyw berson gyflwyno cwynion i'r Comisiynydd mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ffordd mae awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni'r Ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy.